

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: CBS Blaenau Gwent

Mawrth 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: CBS Blaenau Gwent

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae'r weledigaeth yn cael ei fynegi'n syml, ac yn nodi blaenoriaethau'r Awdurdod yn glir.

Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r wybodaeth a ddarperir a'r dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol yn glir. Mae llawer i'w groesawu fan hyn o ran gweithredu presennol a chynlluniau at y dyfodol agos.

1.1 Cynyddu nifer y plant saith oed a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg

Gwerthfawrogwn anhawster sefyllfa'r Awdurdod mewn perthynas â chludiant i ddarpariaeth nad yw'r statudol, yn enwedig o fewn y cyd-destun ariannol llwm sydd ohoni. Croesawn y dadansoddiad o'r sefyllfa, a'r gydnabyddiaeth fod diffyg cludiant yn cael effaith negyddol ar ddilyniant ieithyddol o fewn yr Awdurdod a'r rhanbarth; cymeradwywn y ffaith fod yr Awdurdod yn ceisio mynd ati mewn modd creadigol i geisio dod o hyd i arian i ddatrys y broblem hon. Yn amlwg, bydd angen cadw llygad ar y sefyllfa.

O ran y tablau sy'n dangos niferoedd plant ym Mlwyddyn 2 mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gofynnwn ai rhagamcanion yw'r rhain - neu dargedau yn sgil camau gweithredu? Mae angen sicrhau bod unrhyw dargedau'n ddigon uchelgeisiol, ac yn cadw'r pwysau ar bob rhan o'r system i weithredu'n gadarn i wella'r niferoedd a'r canrannau.

1.2 Mabwysiadu prosesau systematig ar gyfer mesur y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Ymateb yn brydlon i ganfyddiadau arolygon rhieni.

Mae'n amlwg fod tipyn o broblem yn yr arfaeth o ran y cwmp yn niferoedd y plant sy'n mynychu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn bwydo i mewn i'r sector cynradd - mae hyn yn destun gofid sylweddol. Mae'n cael ei amlygu yn y rhagamcanion ar gyfer niferoedd ym Mlwyddyn 2 yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg (2014-16), a'r ffigur brawychus o gwmp o 9.5% ar gofrestr yr ysgol rhwng llynedd ac eleni. Hoffem weld fwy o bwyslais yn y Cynllun ar gamau gweithredu penodol a fydd yn mynd i'r afael â, ac yn gwrthdroi, y sefyllfa bryderus hon.

Crybwyllir yr ymateb siomedig o isel i'r arolwg ar y galw am addysg cyfrwng Cymraeg (sef 5%); hoffem weld cynigion yn y Cynllun ar gyfer ffyrdd creadigol o ysgogi gwell ymateb yn yr arolygon at y dyfodol.

1.3 Sicrhau bod cynigion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif yn cynnwys ystyriaeth lawn o addysg cyfrwng Cymraeg

Rydym yn falch gweld cyfeiriadau at y gwaith sy'n cael ei wneud i gynyddu'r ddarpariaeth uwchradd erbyn 2016. Mae'n amlwg bod angen symud ar gryn gyflymder nawr i sicrhau bod y ddarpariaeth newydd honno yn ei lle erbyn bod Ysgol Gwynllyw yn cyrraedd ei llawn dwf yn 2016.

1.5 Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau a chanolfannau addysg drochi i hwyrddyfodiaid

Croesawn y bwriad i gyflwyno strategaeth ranbarthol yn y maes hwn. Byddai'n fuddiol gweld ychydig mwy o fanylion ynglŷn â'r bwriad hwn.

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Unwaith eto, croesawn y wybodaeth/dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol a ddarperir.

2.1 Cynyddu canran y dysgwyr ym Mlwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)

Fel uchod, gofynnwn ai rhagamcanion yw'r ffigurau yn y tablau sy'n dangos niferoedd plant ym Mlwyddyn 9 mewn addysg cyfrwng Cymraeg - neu dargedau yn sgil camau gweithredu? Mae angen sicrhau bod unrhyw dargedau'n ddigon uchelgeisiol, ac yn cadw'r pwysau ar bob rhan o'r system i weithredu gadarn i wella'r

niferoedd a'r canrannau. Mae'r canrannau ar gyfer 2016 a 2017 yn dangos cwmp sylweddol, sy'n siomedig iawn.

2.2 Datblygu proses drosglwyddo fwy effeithiol o ddarpariaeth nas cynhelir a ariennir i ddarpariaeth ysgol a gynhelir, rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3, a Chyfnodau Allweddol 3 a 4

Beth yw'r esboniad dros yr amrywiaeth helaeth yn y cyfraddau dilyniant o leoliadau blynyddoedd cynnar Mudiad Meithrin i ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent rhwng Medi 2010 a Medi 2012? Byddai cael dadansoddiad i'r rhesymau dros yr amrywiaeth yn rhoi hygyrdd i unrhyw gamau gweithredu y bwriedir eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Mae'r trefniadau cyfredol a'r cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn ymddangos yn gadarnhaol dros ben.

Yr unig bryder sydd gennym yw'r ffaith bod effaith negyddol ar ddilyniant ieithyddol rhwng Cyfnodau Allweddol 4 a 5 oherwydd costau teithio, yn arbennig i ddysgwyr yn Sir Fynwy. Hoffem weld awgrymiadau yn y Cynllun ar gyfer mynd i'r afael â'r sefyllfa hon.

Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Unwaith eto, cymeradwywn y wybodaeth a ddarperir yn yr adran hon o'r Cynllun, a gwerthfawrogwn y ffaith bod targedau penodol wedi'u gosod..

5.2 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf

Gofynnwn pam bod y targed ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn is yn 2015 na'r targed ar gyfer 2014 a'r ffigur ar gyfer 2013? Beth yw'r ffactorau sy'n arwain at ostwng y targed ar gyfer y flwyddyn honno?

Yn yr un modd, beth yw'r esboniad dros y cwmp sylweddol yng nghanlyniadau TGAU Cymraeg A*-C yn 2013? Sonnir bod gostyngiad ym mherfformiad Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, a bod yr ysgol yn 'mynd i'r afael â'r materion dan sylw' - ond ni fanylir ar natur y materion hynny.

5.4 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith

Nodwn â boddhad y gwelliant o ran canlyniadau'r asesiadau yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a'r canlyniadau TGAU cwrs llawn. Gwerthfawrogwn eglurder y targedau ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ar ymdrech a wneir i sicrhau cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n ymgymryd â'r Cwrs Llawn.

Sylwn ar y nifer uchel o ddysgwyr nad ydynt yn cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith o gwbl, a theimlwn nad yw'n ddigonol datgan y bydd 'pob disgybl mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn cael y cyfle i sefyll arholiad allanol mewn Cymraeg fel ail iaith erbyn diwedd CA4'.

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Dim sylw penodol.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Mae'r camau gweithredu a amlinellir yn ymddangos yn fanwl ac yn gadarn. Mae llawer i'w goresawu yn yr adran hon.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com